OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 823 (Cy.73)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2009

Gwnaed - - - -	*31 Mawrth 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*1 Ebrill 2009*
Yn dod i rym - -	*22 Ebrill 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 94(5A), 95(3A) a 138(7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), ac ar ôl ymgynghori â'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yn unol ag Atodlen 7 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007(**3**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2009, a deuant i rym ar 22 Ebrill 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau

2.—(1) Mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005(**4**) wedi'u diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 6(2)(a), yn lle "yn ei wneud", rhodder "wedi ei wneud".

(3) Yn lle Atodlen 2, rhodder y canlynol —

(**1**) 1998 p.31. Cafodd is-adran 94(5A) ei mewnosod gan adran 50, ac is-adran 95(3A) gan adran 51, Atodlen 4, paragraff 9 o Ddeddf Addysg 2002 (p.32).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) 2007 p.15. Mae paragraff 24(1) o Atodlen 7 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007 yn cyfarwyddo nad yw p? er Gweinidogion Cymru i wneud, cymeradwyo neu gadarnhau rheolau gweithdrefnol ar gyfer unrhyw dribiwnlys rhestredig neu gydsynio â'r rheolau hynny yn arferadwy ond ar ôl iddynt ymgynghori â'r Cyngor.

(**4**) O.S. 2005/1398 (Cy.112).

"ATODLEN 2 Rheoliad 5

Y Weithdrefn Apelio

Apelau a wneir yn unol ag adran 94

1.—(1) Yn y paragraff hwn—

ystyr "apêl" yw apêl a wneir o dan y trefniadau a bennir yn rheoliad 3(a) i (ch); ac ystyr "penderfyniad ynghylch addysg chweched dosbarth" yw penderfyniad—

(a) a wneir mewn perthynas â hoff ddewis sydd wedi'i fynegi yn unol â'r trefniadau a wneir o dan adran 86A(1) ynghylch lle dylid darparu addysg i blentyn; neu

(b) sy'n gwrthod caniatâd i blentyn i fynd i chweched dosbarth yr ysgol y mae'r plentyn wedi'i dderbyn iddi.

(2) Rhaid i fanylion y trefniadau ar gyfer gwneud apêl, gan gynnwys yr wybodaeth sy'n cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer pa gorff neu gyrff bynnag sy'n gyfrifol am y trefniadau hynny, gael eu rhoi mewn unrhyw ddogfen sy'n cynnwys hysbysiad i rieni am—

(a) penderfyniad y cyfeirir ato yn adran 94(1)(za), (b) a (2) ac sy'n gwrthod derbyn eu plentyn i ysgol y mae'r rhieni wedi mynegi mai hi yw eu hoff ddewis yn unol â'r trefniadau a wneir o dan adran 86(1); neu

(b) penderfyniad y cyfeirir ato yn adran 94(1)(a) o ran yr ysgol y mae addysg i'w darparu ynddi i'w plentyn.

(3) Yn achos penderfyniad ynghylch addysg chweched dosbarth, rhaid anfon at y plentyn a rhieni'r plentyn hysbysiadau sy'n cynnwys y canlynol—

(a) hysbysiad o—

(i) penderfyniad y cyfeirir ato yn adran 94(1)(za), (b) a (2) ac sy'n gwrthod derbyn y plentyn i ysgol y mae'r plentyn neu unrhyw un o rieni'r plentyn wedi mynegi mai hi yw eu hoff ddewis yn unol â'r trefniadau a wneir o dan adran 86A(1);

(ii) penderfyniad y cyfeirir ato yn adran 94(1)(a) o ran yr ysgol y mae addysg i'w darparu ynddi i'r plentyn; neu

(iii) penderfyniad y cyfeirir ato yn adran 94(1A) neu (2A) ac sy'n gwrthod caniatâd i blentyn sydd eisoes wedi'i dderbyn i ysgol i fynd i chweched dosbarth yr ysgol honno;

(b) manylion y trefniadau ar gyfer gwneud apêl, gan gynnwys gwybodaeth sy'n cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer yr awdurdod priodol; ac

(c) pan fo plentyn ac unrhyw un o rieni'r plentyn yn gwneud apelau ar wahân mewn cysylltiad â'r un ysgol, datganiad sy'n esbonio bod rhaid i'r apelau gael eu gwrando gyda'i gilydd.

(4) Pan fo plentyn ac unrhyw un o rieni'r plentyn yn gwneud apelau ar wahân mewn cysylltiad â'r un ysgol, rhaid i'r apelau gael eu gwrando gyda'i gilydd.

(5) Rhaid i apêl fod drwy hysbysiad ysgrifenedig sy'n nodi'r sail dros ei gwneud.

(6) Rhaid i banel apêl roi cyfle i'r apelydd ymddangos a gwneud sylwadau llafar, a chaniatáu iddo gael ei hebrwng gan gyfaill neu gael ei gynrychioli.

(7) Rhaid i apêl gael ei gwrando'n breifat ac eithrio pan fydd y corff neu'r cyrff sydd wedi gwneud y trefniadau o dan adran 94 yn cyfarwyddo fel arall; ond—

(a) os yw'r panel yn cyfarwyddo hynny, caiff un aelod o'r awdurdod lleol fod yn bresennol, fel sylwedydd, mewn unrhyw wrandawiad apêl gan banel apêl a gyfansoddir yn unol â pharagraff 1 o Atodlen 1;